# TORGOCH



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a statws blaenoriaeth

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Dim yn wybyddus |
| DU a Chymru | SoCC[a] |
| Gwynedd | Dim yn wybyddus |

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Ceir mathau ymfudol o dorgoch[b] yn nyfroedd Arctig moroedd yr Iwerydd, Tawelg ac Arctig. Mae'r amrediad o'r pysgodyn hwn hefyd yn ymestyn i ganol a De Ewrop. Yno mae wedi ei gyfyngu i lynnoedd mynydd mwy dwfn oer o ganlyniad i'r môr gynhesu, fel rhywogaeth goroesol o'r oes yr ia diwethaf. Nid yw'r poblogaethau hyn yn ymfudol. Mae Cymru ar ben deheuol dosbarthiad Ewropeaidd y torgoch. Mae tymherusi'w ganfod mewn naw llyn yn unig yng Nghymru. Mae poblogaethau Cymru o'r torgoch yn cynrychioli hil gwahanol (*Salvelinus alpinus perisii*).

Mae'r potensial ar gyfer twf cyflym y torgoch mewn dyfroedd tymheraidd yn eu gwneud yn rhywogaeth ddelfrydol ar gyfer acwafeithrin. Yn gyffredinol, fodd bynnag, caiff torgochiaid eu dal yn bennaf gan bysgotwyr, sy'n eu trin fel gwobr, oherwydd eu lliw deniadol a'u cig blasus.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd

Gwyddir fod y torgoch yn bresennol mewn pum llyn yng Ngwynedd: Llyn Padarn, Diwaunedd, Cwellyn, Bodlyn, a Ffynnon Llugwy. Mae'r cyfan, heblaw Llyn Padarn, yn disgyn oddi mewn i ardal CGBLl Parc Cenedlaethol Eryri.

Mae Llyn Padarn yn un o dri lleoliad naturiol sy'n weddill yng Nghymru ar gyfer y torgoch, gyda'r boblogaeth hwn yn wahanol yn enetig i'r rhai hynny sydd yn Llyn Cwellyn a Llyn Bodlyn. Sefydlwyd poblogaethau torgochiaid yn Ffynnon Llugwy a Diwaunedd fel modd o liniaru colli'r cynefin yn Llyn Peris, o ganlyniad i gynllun hydro-electrig.

## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y RHYWOGAETH HON YNG NGWYNEDD[c]

- Ewtroffeiddio Llyn Padarn ynghyd a ffyniant alga gwyrddlas gwenwynig, o ganlyniad i rediad oddi ar dir cyfagos a dyddodiad atmosfferig.
- Gollyngiadau o blaladdwyr a chemegau eraill i mewn i'r llyn
- Mae lefelau dŵr ansefydlog o ganlyniad i dynnu dŵr o'r llyn yn broblem bosibl, gan fod mannau claddu a meithrin y torgoch yn y dyfroedd ymylol bas, yn fwyaf amlwg ar hyd Afon y Bala.
- Mae gor-bysgota yn broblem bosibl.

## 3. CGR / CGC CYSYLLTIEDIG GWYNEDD

Coridorau afonydd, Llynnoedd, pyllau a ffosydd

Dyfrgi, Eogiaid, Dŵr-lyriad arnofiol, Pelenllys

[a] Rhestr Rhywogaethau o Bryder Cadwraeth Y DG
[b] *Salvelinus alpinus*
[c] Gweler hefyd yr HAPs cysylltiedig am ffactorau mwy cyffredinol sy'n effeithio ar gynefinoedd y rhywogaeth hon

# 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae Llyn Padarn yn SoDdGA, wedi ei nodi felly ym 1992 am ei ddiddordeb biolegol a daearegol. Mae'r llyn yn ymylu ar Warchodfa Natur Leol Coed Dinorwig, ac yn gorwedd o fewn Parc Gwledig Padarn, a reolir gan Cyngor Gwynedd.

### 4.2 Rheolaeth a rhaglenni gweithredu

- Mae Cymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni yn rheoli pysgota ar ddarn o Lyn Padarn. Mae pysgota torgoch cyfyngedig yn digwydd ar gyfer pysgotwyr mwy arbenigol gyda chyfyngiad bag o 6 pysgodyn wedi ei osod ar y rhannau a reolir gan Gymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni.
- Fel rhan o brosiect torgoch y grŵp, cymerwyd wyau oddi ar y torgochiaid ym Mhadarn ar gyfer cyfnod arbrofol o fagu mewn deorfa leol, gyda chymorth oddi wrth Cyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn gwlad cymru. Y nod yw cynnig "Torgoch Padarn" sydd wedi ei ffermio'n lleol i fwytai a gwestai lleol.
- Mae offer tynnu maetholion wedi ei osod yng Ngwaith Trin Carthffosiaeth Llanberis er mwyn lleihau'r ffosffad sy'n mynd i mewn i Lyn Padarn, oedd, y credir, wedi cyfrannu tuag at y ffyniant alga yn y llyn.

### 4.3 Arolygon, ymchwil a monitro

- Caiff ansawdd a chyflwr y dŵr yn Llyn Padarn, gan gynnwys y lefelau ffosffad, eu monitro'n rheolaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Edison Mission Energy/First Hydro
- Mae'r Cynlluniau Lleol yr Asiantaeth Amgylcheddar gyfer Eryri / Llŷn yn cynnwys cam i "weithredu rhaglen i sefydlu a monitro statws y boblogaeth torgochiaid Arctig yn Llyn Padarn".
- Mae Prifysgol Cymru Bangor (Ysgol Gwyddorau Môr) yn cynnal prosiect ymchwil ar hyn o bryd i edrych ar ecoleg a bioleg cadwraeth y torgoch yn Eryri, gyda gwaith maes yn Llyn Padarn wedi ei fwriadu yn nhymor yr Hydref 2003.

# 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. Cynyddu'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli ynglŷn ag ecoleg a bywydeg cadwraeth y torgoch.
2. Diogelu, cynnal a gwella poblogaeth y torgoch a'i gynefinoedd cysylltiedig yn Llyn Padarn, yn enwedig y mannau epilio a meithrin.
3. Codi ymwybyddiaeth ymysg pysgotwyr a defnyddwyr hamdden erai ll Llyn Padarn o'r materion cadwraeth sy'n gysylltiedig â'r torgoch.
4. Defnyddio'r torgoch fel y rhywogaeth gorau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd rheoli ei gynefinoedd cysylltiedig mewn modd priodol.

# 6. CAMAU GWEITHREDU BWRIEDIG

| Côd | Cam Gweithredu | Partner(iaid)[d] |
|---|---|---|
| **Polisi a deddfwriaeth** | | |
| 1 | Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau mewn mannau sensitif yn cydfynd â chadwraeth y torgoch<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **CG** |
| 2 | Cynnwys camau gweithredu cadwraeth ar gyfer y torgoch mewn unrhyw gynlluniau AA yn y dyfodol sy'n berthnasol i Lyn Padarn<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **AA** |
| **Rheoli a diogelu rhywogaethau / cynefinoedd** | | |
| 3 | Ymchwilio i ymarferoldeb menter rheoli tir yn y dalgylch sydd wedi ei fwriadu ar gyfer cyfyngu ewtroffeiddio yn Llyn Padarn<br>TARGED/ AMSERLEN: erbyn 2006 | **AA,** CCGC, CG |
| **Cyngor** | | |
| | Dim wedi eu hadanbod | |
| **Arolygon, ymchwil a monitro** | | |
| 4 | Parhau i wneud ymchwil i mewn i ecoleg a bioleg cadwraeth y torgoch<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **CPB**, AA |
| 5 | Gweithredu'r cam sydd wedi ei gynnwys yn CAAL AA ar gyfer Eryri / Llŷn i sefydlu a monitro statws y boblogaeth torgochiaid Arctig yn Llyn Padarn<br>TARGED/ AMSERLEN: I'w osod | **AA,** First Hydro |
| **Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd** | | |
| 6 | Rhoi gwybod i gwmnïau lleol yn ardal Llyn Padarn am yr angen i ddiogelu'r torgoch, ac effeithiau posibl gwahanol weithredoedd ar y rhywogaeth a'i gynefinoedd cysylltiedig<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **AA**, CCGC, CG |
| 7 | Annog pysgotwyr i adrodd ar achosion damweiniol o ddal torgoch, a sicrhau y cyflwynir y cofnodion i'r AA.<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | Cymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni, AA |
| 8 | Codi ymwybyddiaeth, ymysg pysgotwyr a defnyddwyr hamdden eraill Llyn Padarn, am y rhywogaeth hon, ei chynefinoedd cysylltiedig a'i anghenion o ran cadwraeth, drwy gysylltu efo'r ganolfan chwaraeon dŵr lleol a Chymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni.<br>TARGED/ AMSERLEN: Cyfredol | **AA,** CCGC, CG, |

# 7 PARTNERIAID A CHYFLEOEDD

## 7.1 Partner Arweiniol Cyffredinol ar gyfer CGR:

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AA)

## 7.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

First Hydro

[d] Dangosir partner arweiniol y cam gweithredu hwn mewn teip du trwm, gweler rhan 7.2 am eglurhad o'r byr foddau

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas Bysgota Seiont Gwyrfai a Llyfni

Prifysgol Cymru, Bangor (CPB)

### 7.3 Cyfleoedd

Defnyddwyr hamdden, pysgotwyr

## 8 DIOLCHIADAU

**Prif Awdur:** Nicola Lewis **Cyd-Awdur**: Tine Sehemer
Ymgynghori: Richard Brassington (AA), Mark Balaam (CG)
Lluniau: English Nature

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, GNL: Gwarchodfa Natur Leol, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth, SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, CAAL: Cynllun Asiantaeth Amgylchedd Lleol.

Fersiwn 1, 2004